# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2 Rhagfyr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

6 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o gyfanswm milltiroedd cronfa ceir Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan roi ffigurau ar gyfer pob mis dros y pedair blynedd diwethaf. (WAQ56810)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Caiff milltiroedd cronfa ceir swyddogol Llywodraeth Cynulliad Cymru eu casglu'n chwarterol. Nodir y ffigurau hyn isod ar gyfer y cyfnod y gofynnwyd amdano:

| Financial Year | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
| 1st Quarter | 18,426 | 65,414 | 68,428 | 61,396 |
| 2nd Quarter | 34,957 | 60,353 | 72,500 | 58,017 |
| 3rd Quarter | 43,559 | 65,367 | 66,377 | 43,375* |
| 4th Quarter | 41,349 | 66,525 | 59,575 | |

- *as at 30 November 2010*

Mae'r cynnydd yn ystod ail hanner 2007/8, a gynhelir mewn cyfnodau dilynol, yn cyd-fynd â chyflwyno mwy o Weinidogion â mwy o gyfrifoldebau yn sgîl darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer nifer yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion uwchradd ar gyfer pob blwyddyn er 2005 a darparu dadansoddiad fesul Awdurdod Addysg Lleol. (WAQ56812)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer nifer yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cynradd ar gyfer pob blwyddyn er 2005 a darparu dadansoddiad fesul Awdurdod Addysg Lleol. (WAQ56813)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Nodir data am athrawon a chynorthwywyr addysgu yn ôl Awdurdodau Lleol, blwyddyn a sector yn y tablau isod:

**Table 1: Full time equivalent qualified teachers in primary schools (a)**

*full-time equivalents*

| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 262 | 267 | 260 | 262 | 259 | 259 |
| Gwynedd | 508 | 512 | 507 | 494 | 484 | 480 |
| Conwy | 434 | 455 | 454 | 443 | 437 | 429 |
| Denbighshire | 379 | 398 | 389 | 390 | 397 | 387 |
| Flintshire | 624 | 645 | 635 | 624 | 610 | 598 |
| Wrexham | 542 | 554 | 542 | 551 | 548 | 559 |
| Powys | 586 | 597 | 573 | 569 | 554 | 550 |
| Ceredigion | 304 | 322 | 312 | 309 | 314 | 295 |
| Pembrokeshire | 500 | 517 | 518 | 511 | 499 | 494 |
| Carmarthenshire | 798 | 828 | 800 | 805 | 778 | 782 |
| Swansea | 948 | 977 | 959 | 949 | 949 | 945 |
| Neath Port Talbot | 592 | 606 | 599 | 595 | 574 | 570 |
| Bridgend | 547 | 574 | 569 | 572 | 550 | 550 |
| Vale of Glamorgan | 560 | 581 | 571 | 563 | 561 | 557 |
| Rhondda Cynon Taf | 990 | 1,002 | 976 | 978 | 966 | 968 |
| Merthyr Tydfil | 251 | 254 | 247 | 249 | 253 | 250 |
| Caerphilly | 760 | 774 | 750 | 735 | 721 | 700 |
| Blaenau Gwent | 295 | 304 | 305 | 301 | 296 | 294 |
| Torfaen | 367 | 372 | 358 | 351 | 335 | 323 |
| Monmouthshire | 336 | 337 | 320 | 308 | 314 | 312 |
| Newport | 603 | 622 | 621 | 604 | 610 | 589 |
| Cardiff | 1,344 | 1,363 | 1,382 | 1,365 | 1,336 | 1,316 |
| Wales | 12,529 | 12,862 | 12,648 | 12,529 | 12,342 | 12,207 |

Source: Annual School Census

(a) qualified teachers (including supply teachers) in schools only. Excludes teachers employed by the local authority but not currently teaching in a school

**Table 2: Full time equivalent qualified teachers in secondary schools (a)**

*full-time equivalents*

| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 298 | 292 | 284 | 273 | 265 | 262 |
| Gwynedd | 534 | 515 | 515 | 503 | 497 | 488 |
| Conwy | 460 | 479 | 464 | 472 | 466 | 461 |
| Denbighshire | 445 | 460 | 457 | 455 | 457 | 456 |
| Flintshire | 640 | 644 | 648 | 666 | 645 | 655 |
| Wrexham | 436 | 433 | 442 | 427 | 427 | 422 |
| Powys | 597 | 594 | 568 | 580 | 572 | 562 |
| Ceredigion | 324 | 323 | 324 | 317 | 316 | 323 |
| Pembrokeshire | 524 | 507 | 511 | 485 | 499 | 485 |
| Carmarthenshire | 775 | 773 | 765 | 755 | 757 | 759 |
| Swansea | 886 | 883 | 863 | 849 | 862 | 839 |
| Neath Port Talbot | 571 | 570 | 577 | 565 | 543 | 530 |
| Bridgend | 589 | 589 | 577 | 571 | 579 | 584 |
| Vale of Glamorgan | 579 | 575 | 578 | 582 | 590 | 596 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,116 | 1,127 | 1,102 | 1,093 | 1,081 | 1,046 |
| Merthyr Tydfil | 256 | 263 | 248 | 245 | 251 | 244 |
| Caerphilly | 764 | 740 | 733 | 723 | 735 | 737 |
| Blaenau Gwent | 296 | 299 | 293 | 283 | 275 | 277 |
| Torfaen | 457 | 467 | 457 | 446 | 450 | 437 |
| Monmouthshire | 337 | 344 | 328 | 321 | 315 | 320 |
| Newport | 632 | 639 | 646 | 622 | 616 | 619 |
| Cardiff | 1,326 | 1,290 | 1,284 | 1,289 | 1,316 | 1,279 |
| Wales | 12,843 | 12,806 | 12,663 | 12,524 | 12,515 | 12,379 |

Source: Annual School Census

(a) qualified teachers (including supply teachers) in schools only. Excludes teachers employed by the local authority but not currently teaching in a school

**Table 3: Full time equivalent teaching assistants in primary schools**

*full-time equivalents*

| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 111 | 114 | 107 | 105 | 139 | 166 |
| Gwynedd | 230 | 250 | 261 | 274 | 329 | 383 |
| Conwy | 156 | 166 | 153 | 157 | 210 | 238 |
| Denbighshire | 174 | 224 | 221 | 275 | 356 | 375 |
| Flintshire | 280 | 303 | 293 | 305 | 422 | 535 |
| Wrexham | 291 | 325 | 354 | 385 | 501 | 526 |
| Powys | 327 | 343 | 347 | 380 | 426 | 448 |
| Ceredigion | 234 | 243 | 237 | 268 | 296 | 306 |
| Pembrokeshire | 419 | 466 | 498 | 527 | 599 | 634 |
| Carmarthenshire | 545 | 549 | 576 | 605 | 682 | 766 |
| Swansea | 554 | 580 | 615 | 692 | 785 | 882 |
| Neath Port Talbot | 322 | 343 | 343 | 349 | 419 | 459 |
| Bridgend | 253 | 284 | 321 | 335 | 462 | 484 |
| Vale of Glamorgan | 225 | 247 | 269 | 282 | 371 | 414 |
| Rhondda Cynon Taf | 497 | 503 | 581 | 638 | 789 | 834 |
| Merthyr Tydfil | 86 | 108 | 122 | 137 | 162 | 198 |
| Caerphilly | 428 | 463 | 499 | 511 | 623 | 633 |
| Blaenau Gwent | 192 | 194 | 211 | 216 | 241 | 232 |
| Torfaen | 175 | 180 | 215 | 233 | 277 | 311 |
| Monmouthshire | 206 | 217 | 216 | 227 | 264 | 323 |
| Newport | 343 | 343 | 335 | 411 | 463 | 534 |
| Cardiff | 581 | 643 | 713 | 760 | 986 | 1,170 |
| Wales | 6,630 | 7,091 | 7,487 | 8,073 | 9,804 | 10,849 |

Source: Annual School Census

**Table 4: Full time equivalent teaching assistants in secondary schools**

*full-time equivalents*

| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 39 | 82 | 66 | 88 | 109 | 122 |
| Gwynedd | 42 | 59 | 76 | 73 | 93 | 125 |
| Conwy | 36 | 62 | 74 | 66 | 66 | 93 |
| Denbighshire | 66 | 73 | 93 | 107 | 139 | 121 |
| Flintshire | 72 | 88 | 96 | 107 | 106 | 118 |
| Wrexham | 96 | 103 | 108 | 100 | 110 | 123 |
| Powys | 116 | 105 | 121 | 135 | 148 | 142 |
| Ceredigion | 113 | 127 | 132 | 153 | 172 | 189 |
| Pembrokeshire | 126 | 144 | 160 | 195 | 197 | 205 |
| Carmarthenshire | 226 | 243 | 254 | 284 | 314 | 334 |
| Swansea | 158 | 208 | 237 | 257 | 247 | 286 |
| Neath Port Talbot | 78 | 96 | 105 | 106 | 117 | 108 |
| Bridgend | 39 | 36 | 55 | 48 | 69 | 76 |
| Vale of Glamorgan | 31 | 58 | 61 | 60 | 68 | 93 |
| Rhondda Cynon Taf | 109 | 111 | 168 | 156 | 182 | 202 |
| Merthyr Tydfil | 15 | 20 | 19 | 21 | 35 | 34 |
| Caerphilly | 67 | 94 | 94 | 126 | 137 | 172 |
| Blaenau Gwent | 35 | 41 | 45 | 61 | 64 | 62 |
| Torfaen | 50 | 60 | 64 | 75 | 101 | 100 |
| Monmouthshire | 65 | 64 | 69 | 83 | 87 | 100 |
| Newport | 85 | 95 | 84 | 147 | 181 | 194 |
| Cardiff | 123 | 204 | 242 | 240 | 288 | 306 |
| Wales | 1,789 | 2,173 | 2,422 | 2,686 | 3,029 | 3,305 |

Source: Annual School Census

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o absenoldeb heb awdurdod a fu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 2005, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul Awdurdod Addysg Lleol. (WAQ56814)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o absenoldeb heb awdurdod a fu mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 2005, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul Awdurdod Addysg Lleol. (WAQ56815)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Ceir data ar absenoldebau anawdurdodedig yn ôl Awdurdod Lleol ar wefan StatsCymru:
Ysgolion cynradd
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=14021
Ysgolion uwchradd
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=6895

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella safonau toiledau ysgolion. (WAQ56816)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleusterau toiled digonol ar gyfer disgyblion, ac eithrio mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir lle mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol. Er gwaethaf hyn, sicrhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod camau gweithredu ar waith i wella safonau mewn toiledau ysgolion ledled Cymru.
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi drafftio 'Toiledau Ysgolion: Canllawiau Arfer Gorau ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru', sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 24ain Ionawr 2011. Nod y canllawiau yw helpu i gyflawni lefel gyson o hylendid a bydd yn cyfrannu at wella cyfleusterau toiled a ddarperir mewn ysgolion.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o ysgolion uwchradd yng Nghymru (s) sy'n cymryd rhan yn y cynllun Menter yr Ifanc a, (b) nad ydynt yn cymryd rhan yn y cynllun Menter yr Ifanc, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul Awdurdod Addysg Lleol. (WAQ56817)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Nid yw'r wybodaeth rydych yn gofyn amdani ar gael yn ganolog ar y ffurf hon. Mae gan ysgolion uwchradd ddisgresiwn i roi amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau entrepreneuraidd i'w myfyrwyr.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ac ystyried dyraniad Cymru eleni o gronfa Prosiect Dysgu Byd-eang yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, a wnaiff y Gweinidog roi manylion: a) a gaiff y gronfa ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; b) faint o arian fydd ar gael i'w wario yng Nghymru ac c) ei gynigion i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn datblygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ymhellach. (WAQ56818)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhyngwladol yw cyllid yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol ac nid yw wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.

Os rhoddir arian i Gymru byddwn yn gweithio gyda'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a rhanddeiliaid yng Nghymru i sicrhau y caiff yr effaith fwyaf bosibl a'i fod yn cyd-fynd ag unrhyw un o'n rhaglenni cysylltiedig, megis Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â Chyngor Sir Penfro ynghylch sut y gellid defnyddio Technium Penfro er mwyn deori busnesau er gwaethaf y ffaith y bydd y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl. (WAQ56811)

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru'r rheini a fu'n rhan o drafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch dewisiadau ar gyfer Technium Penfro ar gyfer y dyfodol. (WAQ56819) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Mae uwch-swyddogion yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wedi trafod cael gwared ar Technium Sir Benfro o'r rhwydwaith gyda Chyngor Sir Penfro. Gan fod y rhwydwaith presennol yn cael cymorth gan gyllid Cydgyfeirio, mae'n bwysig cytuno ar gynllun ymadael mewn trafodaeth â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Cyhoeddir llythyr yn amlinellu'r camau nesaf yn y dyfodol agos. Nid ydym yn cynnal unrhyw drafodaethau trydydd parti mewn perthynas â dyfodol Technium Sir Benfro. Gan mai Cyngor Sir Penfro sydd berchen ar yr eiddo, cyfrifoldeb y Cyngor yw penderfynu ar yr opsiynau ar gyfer y dyfodol.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r rhesymau pam na chafodd Cymru ei chynrychioli ym Marchnad Deithio'r Byd yn Llundain yn ddiweddar. (WAQ56809)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Yn ddiweddar mae Croeso Cymru wedi penderfynu peidio â mynd i ddigwyddiadau masnach teithio a thwristiaeth penodol yn cynnwys Marchnad Deithio'r Byd. Ni all gyfiawnhau mwyach y gost a'r adnoddau sydd ynghlwm wrth fynd i ddigwyddiadau o'r fath o gymharu â'r budd i Gymru a ddaw yn eu sgîl. Mae diddordeb gan fusnesau twristiaeth yng Nghymru i fynychu'r digwyddiad hwn wedi lleihau'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n adlewyrchu'r manteision y gallant eu disgwyl wrth fynychu.

Mae Croeso Cymru felly'n canolbwyntio ar gynnal yr ymgyrch marchnata defnyddwyr yn y DU ac Iwerddon - gyda rhywfaint o farchnata ar-lein mewn marchnadoedd tramor allweddol - a chynhyrchu sylw cadarnahol yn y wasg a'r cyfryngau. Mewn ymateb i awydd gweithredwyr teithiau yn y DU ac yn rhyngwladol am wybodaeth a chyfathrebu mwy cyson, mae Croeso Cymru yn datblygu dull gweithredu rheoli cydberthnasau E-gwsmer sy'n seiliedig ar wefan Busnes i Fusnes a lansiwyd yn ddiweddar www.traveltrade.visitwales.com, e-gyfathrebu a rheoli cyfrifon allweddol.

Mae Croeso Cymru hefyd yn mynd i'r afael â'r nifer cynyddol sy'n dewis dod i Gymru a gweld yr hyn sydd gennym i'w gynnig drwy fuddsoddi ei adnoddau mewn ymweliadau ymgyfarwyddo ar gyfer gweithredwyr teithiau a chynrychiolwyr y cyfryngau. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael i fusnesau twristiaeth a all ddangos eu diddordeb a'u gallu i weithio gyda'r fasnach deithio ryngwladol.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddyrannu ar gyfer cyllid cyfalaf yr Heddlu ar gyfer pob un o'r deng mlynedd diwethaf. (WAQ56820)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am arian cyfalaf awdurdodau'r heddlu yng Nghymru gan nad yw'n swyddogaeth ddatganoledig.